# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 21 Mai 2002

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Cynog Dafis (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Faint y mae Estyn wedi'i wario ar arolygiadau yn ystod y tair blynedd diwethaf y mae ffigurau ar gael ar eu cyfer. (WAQ18018)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Sut y mae'r Gweinidog yn monitro'r cwtogi mewn gwasanaethau addysgol yn Sir Gaerfyrddin o ganlyniad i'r dyraniad cyllideb a gafodd ysgolion eleni. (WAQ18019)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa ganllawiau y gall y Gweinidog eu cynnig i Ysgolion Uwchradd Sir Gaerfyrddin sydd yn rhagweld na allant dalu cyflogau'r staff, nac ychwaith y costau ychwanegol sy'n deillio o athrawon yn symud i fyny trothwy'r raddfa gyflog yn dilyn y dyraniad cyllideb ar gyfer eleni. (WAQ18020)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** Pa gymorth y mae'r gweinidog yn ei gynnig i'r Awdurdodau Addysg Lleol y mae eu diffygion ariannol yn achosi ysgolion i ystyried cwtogi staff. (WAQ18021)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad mewn ymateb i sylwadau Cymdeithas y Prifathrawon Uwchradd bod y dyraniad ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wedi gorfodi ysgolion i roi'r gorau i gyrsiau'r chweched dosbarth, ac i gwtogi ar eu cymorth ar gyfer anghenion addysgol arbennig. (WAQ18022)

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr);** A all y Gweinidog ddweud pam y mae ysgolion yng Nghymru yn wynebu toriadau o dros £100,000 yn y flwyddyn ariannol hon, er nad oes newid yn niferoedd y disgyblion. (WAQ18023)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Ymhellach at OAQ17397 a ofynnwyd gennyf, pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i sicrhau bod ysgolion yn dilyn argymhellion CBAC ynghylch cyflwyno disgyblion ar gyfer arholiadau'r Gymraeg fel iaith gyntaf. (WAQ18024)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Faterion Gwledig

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog gynhyrchu cofnod llawn, wedi'i

ddosbarthu ar sail ranbarthol a chenedlaethol, o’r holl brofion serolegol a wnaed gan ei Adran ers dechrau epidemig y traed a’r genau, gan nodi pa anifeiliaid a brofwyd ar bob fferm, canran y samplau a gymerwyd, canlyniadau’r profion, a’r camau a gymerwyd gan ei Adran yn sgil hynny. (WAQ17986)

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi a oedd y math o firws oedd yn gyfrifol am yr achos diweddar o glwy’r traed a’r genau wedi’i gynnwys yn llyfrgell labordai Pirbright cyn yr achos hwn fel rhan o’i swyddogaeth fel llyfrgell gyfeiriadol fyd-eang. (WAQ17987)

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog nodi’r camau a gymerwyd ers 01.01.01, ynghyd ag unrhyw gamau pellach y credir sydd eu hangen, er mwyn atal mewnforio clwy’r traed a’r genau i’r DU eto (WAQ17988)

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** Gofyn i’r Gweinidog ym mha wledydd y cafwyd cofnod bod yr union fath o firws oedd yn gyfrifol am yr achos diweddar yn weithredol yn ystod y deuddeg mis cyn dechrau’r achos hwn. (WAQ17989)

**Janet Davies (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog nodi pa fath yn union o firws traed a’r genau, yn perthyn i’r Grwp O Pan-Asia, oedd yn gyfrifol am yr achos diweddar. (WAQ17990)

Gofyn i Weinidog y Cynulliad dros Gyllid

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am gostau holl fentrau staff y Cynulliad a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Parhaol ers Mai 1999. (WAQ18017)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog roi datganiad ar fentrau’r Ysgrifennydd Parhaol ar gyfer staff y Cynulliad, megis y ‘dyddiau cwrdd i ffwrdd’, a’u swyddogaeth o ran rhoi llywodraeth well ar waith. (WAQ18016)

**Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Gweinidog restru’r holl fentrau y mae’r Ysgrifennydd Parhaol wedi’u cyflwyno ar gyfer staff y Cynulliad ers Mai 1999. (WAQ18015)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A yw’r Gweinidog wedi dewis cwmni datblygu i gwblhau Adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ18025)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pryd y mae’r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi enw’r cwmni datblygu fydd yn cwblhau Adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ18026)

**Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i benodi

ymgynghorwyr mewn cysylltiad â chwblhau adeilad newydd y Cynulliad. (WAQ18027)